Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwynfa**

**Gwynfa**
**103 Heol yr Orsaf Llanisien**
**Caerdydd**
**CF14 5UW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwynfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 17 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw] |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Gwynfa yn darparu awyrgylch cynnes a theuluol lle y caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog i fod yn annibynnol. Caiff y bobl eu croesawu i gartref lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod ganddynt ddewis. Mae'r bobl yn cael cymorth i wneud pethau sydd o bwys iddynt ac yn hoff o'r ffaith bod gweithgareddau penodol yn cael eu trefnu iddynt gymryd rhan ynddynt os byddant am wneud hynny. Mae'r bobl hefyd yn gwerthfawrogi'r dewis o brydau bwyd cartref. Mae cynlluniau personol ar waith a chaiff y bobl eu cynnwys yn y broses adolygu, gan helpu i osod nodau yr hoffent eu cyflawni. Mae'r gwasanaeth yn datblygu hyn ymhellach er mwyn sicrhau bod cydbwysedd o nodau y gellir eu cyflawni ynghyd â digon o fanylion i gefnogi hyn. Mae gwasanaeth rhoi meddyginiaeth cadarn ar waith.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Mae gan y bobl eu hystafelloedd eu hunain y gallant eu cadw ar glo os byddant am wneud hynny. Ceir ardal awyr agored y tu ôl i'r cartref ac mae'r ardaloedd cymunedol yn olau ac yn ffres. Mae ystafell smygu ar gael, a gall y bobl dreulio amser gydag anifeiliaid anwes y cartref mewn ardal ddynodedig. Caiff annibyniaeth y bobl ei hyrwyddo am eu bod yn gallu defnyddio'r cyfleusterau golchi dillad, ond mae'r darparwr yn ystyried sut y gall gynnig cyfleoedd pellach i hyrwyddo annibyniaeth drwy roi cyfleoedd i'r bobl ddefnyddio cyfleusterau coginio.

Mae gan y darparwr unigolyn cyfrifol enwebedig sy'n goruchwylio'r gwasanaeth ac ansawdd y gofal. Mae rheolwr profiadol ac ymroddedig yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth yn

effeithlon o ddydd i ddydd, a chaiff ei gefnogi gan dîm gofal cyson. Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio mewn ffordd ddiogel, maent yn brofiadol ac wedi cael yr hyfforddiant priodol.

## Llesiant

Caiff iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl eu cefnogi. Dengys y cynlluniau personol sut y gall y bobl gael eu cefnogi pan fyddant yn teimlo'n isel neu'n bryderus, ac mae'r gweithwyr gofal yn eu dilyn. Maent hefyd yn dangos y cymorth sydd ei angen ar y bobl i'w helpu i barhau'n iach yn gorfforol. Caiff y staff yr hyfforddiant perthnasol o ran diwallu anghenion iechyd meddwl y bobl ac unrhyw anghenion gofal arbenigol eraill. Mae'r awyrgylch yn hamddenol a thawel, ac mae'r anifeiliaid anwes yn helpu i gefnogi llesiant y bobl. Caiff y bobl eu hannog i barhau mor egnïol â phosibl a chânt ddeiet cytbwys i hybu eu hiechyd. Caiff cofnodion eu cadw er mwyn helpu i fonitro llesiant y bobl a chaiff camau eu cymryd i gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol os bydd angen gwneud hynny. Mae'r bobl yn cael cymorth i gymryd eu meddyginiaeth mewn modd amserol er mwyn hybu eu hiechyd.

Mae gan y darparwr systemau ar waith er mwyn sicrhau bod gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r cynlluniau gofal y cytunwyd arnynt yn dangos yr hyn y gall unigolyn ei wneud yn annibynnol. Mae'r bobl yn gosod nodau er mwyn dangos yr hyn yr hoffent eu cyflawni yn y tymor hwy. Bob dydd, caiff y bobl ddewis ymgymryd â'u gofal personol eu hunain, mynd allan, aros yn y cartref neu gael pryd o fwyd. Dywedodd y bobl wrthym "*It's lovely, we get a choice of food,*" ond gwnaethom hefyd weld fod y bobl wedi dewis trefnu tecawê tua diwedd yr wythnos a'u bod yn casglu arian yn barod ar ei gyfer. Gall y bobl ddewis ble yn y cartref maent am dreulio eu hamser, beth i'w wneud a gyda phwy yr hoffent dreulio eu hamser. Mae gan y bobl reolaeth dros eu gwariant, cânt gymorth i gael gafael ar eu harian os bydd angen a rhoddir arweiniad iddynt os bydd angen cyllidebu. Mae'r bobl yn dewis sut yr hoffent wario eu harian. Dywedodd un unigolyn wrthym fod y gwasanaeth yn ei helpu i "*sort out a holiday*," a dywedodd unigolyn arall wrthym ei fod yn dewis gwario ei arian ar eitemau moethus. Mae lleoliad y cartref yn hyrwyddo annibyniaeth a dewis, gan fod systemau trafnidiaeth ac amwynderau da yn y gymuned gyfagos. Lle y bo'n bosibl, mae'r cartref yn rhoi dewis o ystafelloedd i'r bobl ac yn eu hannog i ddewis sut yr hoffent eu haddurno.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed a chaiff cydberthnasau cadarnhaol eu meithrin. Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Gall y bobl gadw eu heiddo personol dan glo os byddant am wneud hynny, a gellir cloi'r ystafelloedd gwely er mwyn cynnal preifatrwydd. Mae'r bobl yn teimlo'n gyfforddus ac yn ystyried Gwynfa fel eu cartref. Maent yn teimlo'n ddiogel yn byw gyda gweithlu sydd yn meddwl y byd ohonynt, ac â'r bobl eraill sy'n byw yn y cartref sy'n dod yn rhan o un teulu mawr. Mae'r bobl yn gwneud ffrindiau da ac maent yn sicrhau y caiff pawb wahoddiad i ymuno mewn sgyrsiau neu ddigwyddiadau. Mae nifer priodol o staff hyfforddedig yn y cartref, yn ogystal â rheolwr profiadol sy'n goruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth yn effeithlon. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod sut i ddiogelu oedolion agored i niwed ac yn cael hyfforddiant i wybod sut i roi gwybod am faterion. Caiff protocolau eu dilyn os na fydd unigolyn yn dychwelyd adref pan fo disgwyl iddo wneud hynny, er mwyn i'r

gwasanaeth wybod ei fod yn ddiogel. Mae system teledu cylch cyfyng yn helpu i fonitro'r ardal awyr agored.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael cymorth i sicrhau eu llesiant emosiynol a meddyliol. Mae'r gwasanaeth yn arbenigo mewn darparu gofal i bobl y mae angen cymorth arnynt â'u hiechyd meddwl. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant arbenigol, felly maent yn ymwybodol o anghenion y bobl a sut i'w cefnogi. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth i'r gweithwyr gofal am y ffordd orau o roi cymorth i unigolyn, a phan fydd y bobl yn isel eu hysbryd cânt eu cefnogi'n briodol. Caiff cydberthnasau cadarnhaol eu meithrin rhwng pob aelod o'r staff a'r bobl sy'n byw yng nghartref Gwynfa. Gwelsom fod y staff yn ymgynghori â'r bobl am eu gofal a'u bod yn dangos parch tuag atynt wrth gynnal sgyrsiau â nhw, gan roi gwybodaeth glir er mwyn gwneud yn siŵr na fydd y bobl yn dod yn bryderus. Caiff y bobl eu hatgyfeirio at weithwyr iechyd proffesiynol allanol os bydd angen gwneud hynny, gan gynnwys y rheini a all gynnig cymorth gyda'u hiechyd meddwl. Anogir y bobl i fod yn rhan o'r broses o gynllunio eu gofal, gan osod nodau yr hoffent eu cyflawni fel bod ganddynt reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Roedd nifer o'r nodau yn nodau tymor hir, ac rydym wedi trafod â'r unigolyn cyfrifol sut y gellir sicrhau y caiff nodau tymor byr sy'n haws eu cyflawni hefyd eu cynnwys er mwyn cefnogi llesiant y bobl. Dywedodd y bobl wrthym, "*I'm very happy*" ac *"I love it here,"* a gwelsom nifer ohonynt yn gwenu, yn canu ac yn dawnsio'n ddigymell yn ystod y dydd.

Ar y cyfan, caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth i ddangos, er enghraifft, sut y caiff unigolyn ei gynnwys wrth olchi ei ddillad, er mwyn hyrwyddo ei annibyniaeth. Mae rhai o'r bobl yn hoffi mynd allan i'r gymuned yn annibynnol, ond mae protocolau ar waith pe na byddent yn dychwelyd i'r cartref yn ddiogel erbyn yr amser y cytunwyd arno. Mae angen cymorth ar rai o'r bobl i fyw o ddydd i ddydd oherwydd anghenion corfforol, a chaiff hyn ei ddarparu. Caiff eraill gymorth gan weithwyr gofal sy'n eu hannog. Gwelsom y bobl yn helpu i gwblhau tasgau, megis gosod byrddau, ac mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn golchi eu llestri eu hunain ar ôl pryd o fwyd. Dywedwyd wrthym fod y bobl yn cael cynnig cyfleoedd i bobi a choginio o bryd i'w gilydd, ond nad yw'n weithgaredd dyddiol. Rydym wedi trafod hyn â'r unigolyn cyfrifol sy'n ystyried sut y gall y gwasanaeth gynnig cyfleoedd i hyrwyddo annibyniaeth y bobl o ran darparu prydau yn well.

Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio ac adolygu eu gofal. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys mewn asesiadau fel rhan o'r broses dderbyn ac maent yn ymweld â'r gwasanaeth er mwyn gweld a hoffent fyw yn y cartref. Caiff cynlluniau personol eu datblygu a chytunir arnynt, er bod angen cynnwys mwy o fanylion yn rhai ohonynt. Mae'r cofnodion dyddiol yn dangos sut y caiff y bobl eu cefnogi ac mae gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft, os bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu cynnwys, yn cael ei chadw. Caiff y wybodaeth hon ei hystyried ochr yn ochr â barn yr unigolyn pan gaiff 'cynllun

personol’ yr unigolyn hwnnw ei adolygu. Caiff cofnodion meddyginiaeth eu cadw a'u defnyddio i gefnogi unrhyw adolygiadau gyda'r meddyg teulu, gan gynnwys y defnydd o feddyginiaeth ‘yn ôl yr angen’.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion. Mae Gwynfa yn darparu cymorth i bobl sy'n gallu symud yn annibynnol, y mae rhai ohonynt yn defnyddio cymhorthion cerdded syml. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u lleoli ar dri llawr, ac nid oes lifft ar gael, ond mae'r bobl sydd angen ystafell sy'n haws ei chyrraedd yn byw ar y llawr gwaelod. Gellir cloi'r ystafelloedd gwely os bydd y bobl am wneud hynny, a dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt gwpwrdd neu locer yn eu hystafell y gellir ei gloi os byddant am gadw eitemau personol yn ddiogel. Gwelsom unigolyn a oedd ar fin symud i gartref Gwynfa yn cael dewis ei ystafell wely a oedd newydd gael ei haddurno. Mae dewis o gyfleusterau ymolchi, a gall y bobl dreulio amser yn eu hystafelloedd eu hunain neu mewn amrywiaeth o ardaloedd byw cymunedol. Nid oes llawer o le yn yr ystafell fwyta, ond mae'r bobl yn mwynhau treulio amser yno. Caiff yr iard gefn ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau garddio ac mae'n lle y mae'r bobl yn hoffi mynd iddo i smygu. Mae ardal smygu dan do ac mae trefniadau diogelwch tân ar waith ar gyfer yr ardal honno. Mae ci a chath yn byw yn y cartref ac mae ardal benodol ar eu cyfer. Mae rhywfaint o ôl traul ar yr ardal hon, ond mae'r bobl wrth eu bodd yn treulio amser yno gyda'r anifeiliaid. Mae'r cartref yn olau, yn gynnes ac yn lân.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r rheolwr yn dilyn prosesau i'w helpu i fonitro a rheoli'r amgylchedd yn barhaus, a chaiff gymorth gan weithiwr cynnal a chadw sy'n ymgymryd â thasgau o fewn ei allu. Caiff y gwaith o gynnal a chadw a phrofi gwasanaethau a chyfarpar ei drefnu gyda chontractwyr allanol. Mae tystysgrifau ar gael i ddangos bod y gwaith hwn yn cael ei wneud mewn modd amserol. Mae'r gegin wedi cael ei hadnewyddu, a gosodwyd llawr a gwyntyll echdynnu newydd. Caiff bwyd ei storio'n ddiogel. Gellir cloi'r ystafell golchi dillad sy'n cynnwys ardal i storio cemegau, ond gall y bobl ddefnyddio'r ystafell i olchi eu dillad eu hunain neu gael help i wneud hynny. Defnyddir ystafell y gellir ei chloi i storio meddyginiaeth. Mae system teledu cylch cyfyng ar waith yn rhai o ardaloedd allanol y cartref. Mae trefniadau cadw tŷ da ar waith. Nid oes unrhyw eitemau diangen wrth ymyl yr allanfeydd tân a chaiff sbwriel ei wahanu a'i storio'n briodol, ond rydym wedi tynnu sylw'r unigolyn cyfrifol at y ffaith y dylid storio'r holl sbwriel bellter diogel o'r adeilad. Mae digon o ‘gyfarpar diogelu personol’ ar gael o amgylch y cartref, fel menig a ffedogau, ac mae gel alcohol ar gael i unigolion ddiheintio eu dwylo.

Mae lleoliad y cartref yn hyrwyddo annibyniaeth a gall y bobl fynd allan i'r gymuned leol. Gall y bobl fynd a dod o'r cartref fel y dymunant os nad oes angen cymorth arnynt i wneud hynny. Mae trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys gorsaf drên a safleoedd bws o fewn pellter cerdded i'r cartref. Gall y bobl gerdded i'r cyfleusterau cyfagos, gan gynnwys banciau a siopau coffi. Pan fydd y gweithwyr gofal yn trefnu gwibdeithiau, weithiau caiff trafnidiaeth

gyhoeddus ei defnyddio, ond ar adegau eraill, caiff bws mini ei drefnu, gan ddibynnu ar y gyrchfan.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr systemau ar waith i helpu i weithredu'r gwasanaeth ac mae trefniadau llywodraethu ar waith hefyd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth, gan ymgynghori â'r bobl a'r staff am eu profiadau o'r gwasanaeth. Mae'n ystyried ansawdd y gofal a ddarperir ac yn llunio adroddiadau yn seiliedig ar ei ganfyddiadau. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, cânt eu hadolygu'n rheolaidd ac maent ar gael i'r tîm staff eu dilyn. Mae 'datganiad o ddiben' a 'chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth' yn nodi'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig, ond maent yn gwrthddweud ei gilydd mewn mannau ac mae'r unigolyn cyfrifol wrthi'n ymdrin â hyn. Fel rhan o grŵp gwasanaethau Hafod, mae systemau ar gael i dîm staff Gwynfa i'w helpu â'r gwaith o ddarparu gofal o ddydd i ddydd, ac mae adnoddau pellach ar gael hefyd i helpu'r gweithlu. Cadarnhaodd y rheolwr fod y sefydliad yn gefnogol.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a'u hannog i ddatblygu eu sgiliau. Caiff prosesau cyn cyflogi eu dilyn ac mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Dim ond un ffeil personél a welsom lle roedd dogfen ar goll, ac aeth y rheolwr ati i ymdrin â hyn ar unwaith. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau cyfnod sefydlu a hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Mae angen rhywfaint o hyfforddiant arbenigol er mwyn diwallu anghenion y bobl, a gwelsom fod y rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant hwn, er bod angen i rai gael hyfforddiant gloywi. Mae'r gweithwyr gofal yn cael cyfarfodydd goruchwylio â'u rheolwr er mwyn adolygu eu datblygiad proffesiynol a thrafod unrhyw faterion. Caiff pob aelod o'r staff wahoddiad i fod yn rhan o'r cyfarfodydd tîm rheolaidd lle gallant ddylanwadu ar y broses o ddatblygu'r gwasanaeth a sicrhau bod cysondeb o ran y gofal a ddarperir. Caiff y gweithwyr gofal eu hannog a'u cefnogi i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu.

Caiff y gwasanaeth ei redeg yn hwylus. Mae rheolwr profiadol a gaiff ei gefnogi gan dîm rheoli ehangach yn sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r lefelau staffio yn briodol, ac mae'r tîm rheoli yn helpu i ofalu am y bobl pan fydd bylchau oherwydd gwyliau a salwch, gan osgoi'r angen i ddefnyddio staff asiantaeth. Ceir arweinyddiaeth dda. Mae'r rheolwr yn adnabod y bobl a'r staff yn dda iawn, ac yn helpu pawb i gyflawni eu potensial cymaint â phosibl. Mae hefyd yn ymwybodol o'r amgylchedd a'r gofynion ar gyfer ei gadw'n ddiogel ac yn daclus. Caiff amserlenni gwaith eu darparu a'u monitro er mwyn sicrhau y caiff yr holl dasgau a ddyrannwyd eu cwblhau. Mae systemau cyfathrebu da yn helpu i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn effeithlon, gan gynnwys, er enghraifft, llunio 'cylchlythyr' i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd am ddigwyddiadau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/05/2023